

Canllaw Ffynhonnell Rhif. 6

MAPIAU A RHANIADAU DEGWM

BETH YW MAPIAU A RHANIADAU DEGWM?

Taliadau oedd y degwm gan dirfeddianwyr mewn plwyf i gynnal eglwys y plwyf a'i chlerigwyr. Yn wreiddiol, telid y degwm mewn nwyddau (e.e. yd, da byw ayb). Daeth y mapiau degwm a'r rhaniadau i'w canlyn (llyfrau cyfeirio) o ganlyniad i Ddeddf Cyfnewidiad Degwm 1836. Newidiodd y Ddeddf hon daliadau'r degwm o fod mewn nwyddau i rai mewn arian, yn seiliedig ar arwynebedd a ffrwythlondeb y tir.

O ganlyniad i'r Ddeddf, roedd yn rhaid paratoi mapiau ac arolygon o'r holl dir a oedd yn dod o dan y degwm er mwyn cyfrifo'r tâl oedd yn ddyledus i'r Eglwys. Os nad oedd map degwm wedi'i baratoi ar gyfer plwyf neu ardal rydych â diddordeb ynddi, byddai hyn yn dangos nad oedd tir y gellid ei ddegymu yn yr ardal. Cafodd mapiau a rhaniadau degwm eu paratoi gan Gomisiynwyr Degwm o arolygon a phrasiadau a wnaed rhwng 1837 a 1852. Mae mapiau a rhaniadau Sir y Fflint yn dyddio'n bennaf o rhwng 1839 a 1849 gyda rhai enghreifftiau diweddarach.

Mae mapiau degwm yn amrywio'n fawr mewn arddull a graddfa gan na ellid pennu arddull safonol. Roedd yn rhaid i dirfeddianwyr dalu am gostau paratoi'r mapiau ac roedd rhai'n awyddus i arbed arian drwy ddefnyddio mapiau ac arolygon oedd yn bodoli eisoes. Mae mapiau Sir y Fflint ar raddfa lai nag mewn ardaloedd eraill gyda 56% ohonyn nhw wedi'u paratoi ar raddfa o un fodfedd i chwe chadwyn. Cafodd mwy na'r cyfartaledd o fapiau degwm Sir y Fflint eu paratoi ar femrwn neu felwm yn hytrach nag ar bapur.

BETH ALLA I EI GANFOD O FAPIAU A RHANIADAU DEGWM?

Mae mapiau degwm yn dangos yr holl dir mewn plwyf y gellid ei ddegymu; mae'n cynnwys tai ac adeiladau allan. Rhoddwyd cyfeirif unigryw i bob darn o dir / eiddo. Chwiliwch am gyferif y tir / eiddo rydych chi â diddordeb ynddo. Yna bydd yn rhaid i chi edrych ar y rhaniadau perthnasol (mae'r rhain ar ficroffilm yn Swyddfa Gofnodion Sir y Fflint) i ganfod yr wybodaeth ynghylch y darn hwnnw o dir neu eiddo.

Rhaniadau yw llyfrau cyfeirio sy'n cyferbynnu â'r rhifau a roddir ar y mapiau degwm. Mae'r rhaniadau'n rhoi manylion: perchennog, deliad, enwau caeau, natur yr eiddo, arwynebedd, defnydd tir (e.e. cnydau, porfa, dôl) a'r rhent sy'n daladwy am bob darn o dir y gellir ei ddegymu. Cofiwch fod y rhaniadau yn nhrefn yr wyddor o dan gyfenw'r tîrfeddiannwr. Felly, nid yw'r rhifau mewn trefn ddilynol ond yn hytrach wedi'u 'cymysgu'. Os nad ydych yn gwybod enw'r tîrfeddiannwr oedd yn berchen ar ddarn o dir / eiddo rydych

â diddordeb ynddo, bydd yn rhaid i chi chwilio drwy'r rhaniadau nes y deuwch ar draws y rhif perthnasol, a gall hynny gymryd peth amser.

Mapiau a rhaniadau degwm oedd yr enghraifft gynharaf o fapio plwyfi ar raddfa eang yng Nghymru a Lloegr ac maen nhw'n ffynonellau rhagorol ar gyfer nifer o bynciau ymchwil, gan gynnwys:

- Hanes tai
- Enwau caeau
- Astudiaethau defnydd tir
- Hanes teuluoedd
- Perchnogaeth tir
- Ail greu gosodiad ardal

SUT ALLA I DDEFNYDDIO MAPIAU A RHANIADAU DEGWM YN ARCHIFDY SIR Y FFLINT?

Bydd yn rhaid i chi archebu bwrdd mapiau a darlennydd microffilm i weld y mapiau a'r rhaniadau.

Nid yw'r mapiau degwm gwreiddiol yn Swyddfa Gofnodion Sir y Fflint. Maen nhw un ai yn **Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth** neu yn yr **Archifau Cenedlaethol, Kew**. Fodd bynnag mae gennym ni lungopïau o'r gwreiddiol a gellir defnyddio'r bwrdd mapiau i'w gweld. Rhoddwyd cyfeirnod **'NT/M'** arnyn nhw ac mae'r catalog ar gael ar silffoedd agored yn yr ystafell chwilio. Bydd yn rhaid i chi nodi cyfeirif y map degwm penodol rydych ei eisiau. Dylech archebu pob map drwy ddefnyddio **slip archebu dogfen**. Ysgrifennwch gyfeirif y ddogfen (a'ch enw, rhif sedd a'r dyddiad) ar y slip ac ewch â hi at y ddesg ymholiadau i archebu'r cofnodion.

Os na allwch adnabod yr union ddarn o dir neu eiddo rydych â diddordeb ynddo ar y map degwm efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi chwilio ar fap **Arolwg Ordnans** argraffiad cyntaf o'r un ardal. Gallwch ofyn am y mapiau hyn wrth y ddesg ymholiadau. Gallwch ddefnyddio'r mapiau Arolwg Ordnans ar y cyd gyda'r mapiau degwm i nodi ffurfiau caeau a ffyrdd fel y gallwch roi cyfeiriad i'ch ymchwil.

Cedwir rhaniadau ar ficroffilm yn nrôr gyntaf y cwpwrdd microffilmiau rhifau **23 - 26**. Maen nhw yn nhrefn yr wyddor yn ôl plwyfi ac mae'r plwyfi sy'n cael eu cynnwys ar bob microffilm wedi'i ysgrifennu ar du allan pob câs. Bydd yn rhaid i chi archebu darlennydd microffilm i weld y cofnodion yma.

GWYBODAETH BELLACH

Mae'r llyfrau canlynol ar gael ar silffoedd yr ystafell ymchwil:

Beech, G. a Mitchell, R. Maps for Family and Local History. Kew, 2004.

Davies, R. The Tithe Maps of Wales. Aberystwyth, 1999

Harley, J.B. Maps for the Local Historian. Llundain, 1972.

Smith, D. Maps and Plans for the Local Historian and Collector. Llundain, 1988. Gallwch hefyd ymweld â gwefan yr Archifau Cenedlaethol a gweld eu canllaw ymchwil ar gyfer cofnodion y degwm: www.nationalarchives.gov.uk